**P2021-346**

**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**CYLCH GORCHWYL**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO, SICRWYDD A RISG**

1. *Adrodd*

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn adrodd i'r Cyngor.

Bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf ac ar wahân i Gadeiryddion y Cyngor, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol cyn gynted ag y byddant ar gael.

Yn ogystal, bydd agenda cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael ei dosbarthu i Gadeirydd y Cyngor a'r Is-ganghellor.

Bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn ymdrin â blwyddyn ariannol y Brifysgol ac unrhyw faterion arwyddocaol hyd at ddyddiad paratoi'r adroddiad. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r gweithgarwch am y flwyddyn. Bydd yn rhoi barn y Pwyllgor am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau'r sefydliad ar gyfer y canlynol:

- rheoli risg, diwylliant, rheoli a llywodraethu (mae'r elfen rheoli risg yn cynnwys cywirdeb y datganiad o reolaeth fewnol sydd wedi'i gynnwys ynghyd â'r datganiad blynyddol o gyfrifon); a
- chynaliadwyedd, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian).

Dylai'r farn hon fod yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor. Fel arfer dylid cyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Cyngor cyn i ddatganiad cyfrifoldeb yr aelodau yn y datganiadau ariannol blynyddol gael ei lofnodi. Bydd yr adroddiad fel arfer yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r Cyngor ei ystyried.

Bydd y Pwyllgor yn paratoi cylch busnes blynyddol i sicrhau y gall y Pwyllgor ddangos yn glir yn ei Adroddiad Blynyddol sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel y'u nodir yn ei Gylch Gorchwyl ac yn unol â Chôd Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgolion (y CUC).[1] Bydd cylch blynyddol y busnes yn cael ei ddosbarthu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl o leiaf unwaith y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau'n cael eu nodi, eu hadolygu a'u cyflawni.

2. *Amlder Cyfarfodydd*

Fel arfer dylai'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg gwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Gall cyfarfodydd arbennig gael eu hymgynnull gan Gadeirydd y Pwyllgor neu ar gais yr Archwilwyr Allanol a/neu'r Cyfarwyddwr Cysylltiol – Archwiliwr Mewnol. Bydd y Pwyllgor fel arfer yn cwrdd wyneb yn wyneb ddwywaith fesul blwyddyn academaidd ac yn cynnal dau gyfarfod o bell, ond bydd hefyd yn anfon e-byst neu'n telegynadledda/fideo-gynadledda fel y bo'n briodol i ymgymryd â'i fusnes yn effeithiol. Cynhelir cyfarfodydd yn unol â'r arferion gorau a nodir yn Rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd a gymeradwywyd gan y Cyngor.

---

[1] Mae Côd Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch y CUC ar gael yn https://www.universitychairs.ac.uk/publications/

3. *Cyfansoddiad*

Dylai aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg gynnwys:

- Aelod Lleyg o'r Cyngor (Cadeirydd);
- Tri aelod lleyg o'r Cyngor;
- Hyd at ddau aelod lleyg cyfetholedig (nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor);
- Un myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor;
- Un aelod o staff sy'n aelod o'r Cyngor.

Gellir cyfethol i'r Pwyllgor aelodau ychwanegol sydd ag arbenigedd penodol fel y bo'n briodol. Nid yw aelodau cyfetholedig yn aelodau o'r Cyngor, ac felly nid ydynt ymhlith Ymddiriedolwyr y Brifysgol. Fodd bynnag, maent yn aelodau llawn o'r Pwyllgor y cawsant eu cyfethol iddo, ac maent yn gwneud cyfraniad allweddol at fusnes y pwyllgor.

Mae'r aelodau cyfetholedig hyn o bwyllgorau'n unigolion lleyg annibynnol, a benodir i gynnig cyngor a mewnbwn arbenigol i fusnes yr is-bwyllgorau. Diben deiliaid y rôl yw darparu cyngor arbenigol ychwanegol yn unol â fframwaith llywodraethu'r Brifysgol, heb gynyddu nifer aelodau lleyg y Cyngor.

Dylai'r Cyngor benodi pob aelod o'r Pwyllgor a'i Gadeirydd, ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, ac mae'n rhaid iddynt gynnwys aelodau heb unrhyw gyfrifoldeb gweithredol am reoli'r Brifysgol. **Rhaid** i'r Pwyllgor gynnwys mwyafrif o aelodau lleyg (boed hwy'n aelodau o'r Cyngor neu'n aelodau lleyg cyfetholedig). Ni ddylai fod gan aelodau lleyg o'r cyngor nac aelodau lleyg cyfetholedig fuddiannau ariannol sylweddol yn y Brifysgol. Dylai o leiaf un aelod feddu ar brofiad perthnasol diweddar ym maes cyllid, cyfrifeg neu archwilio. Gall y Pwyllgor, os yw'n ystyried ei fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol, gyfethol aelodau sydd ag arbenigedd perthnasol. Dylid rhoi 'sylw priodol' i ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylid darparu rhaglen sefydlu strwythuredig ar gyfer holl aelodau newydd y Pwyllgor, gan gynnwys:

- darparu ffeil gyfeirio, gan gynnwys deunydd cefndirol a deunydd cyfeirio perthnasol;
- sesiynau briffio un-i-un gyda Chadeirydd y Pwyllgor, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Cysylltiol - Archwilio Mewnol a'r Ysgrifennydd i'r Cyngor a/neu Ysgrifennydd y Pwyllgor (os yw'n wahanol);
- unrhyw ddigwyddiadau sefydlu a hyfforddi allanol priodol.

Dylid darparu rhaglen barhaus o weithgarwch, cyfleoedd i ddiweddaru hyfforddiant a chynnal hyfforddiant allanol ychwanegol ar gyfer aelodau sy'n parhau, er mwyn sicrhau bod aelodau, yn enwedig aelodau lleyg cyfetholedig y Pwyllgor, yn cynnal digon o gyswllt priodol â'r Brifysgol.

Dylai Ysgrifennydd y Cyngor fod yn Ysgrifennydd y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg (neu unigolyn annibynnol priodol arall).

Ni ddylai Cadeirydd y Cyngor na Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth fod yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg. Er nad yw aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg fel arfer yn aelodau o unrhyw bwyllgor arall o'r Brifysgol, nid ydynt yn cael eu hatal rhag bod yn aelod o fwy nag un pwyllgor ar yr amod nad yw'r aelodau'n cadeirio pwyllgorau. Pan fo aelodau'n rhan o fwy nag un pwyllgor, dylid diffinio rolau a chyfrifoldebau pob pwyllgor yn glir.

4. *Gohebiaeth Freintiedig ag Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cyngor*

Mae braint yn caniatáu i unigolion ac endidau wrthod datgelu deunydd cyfrinachol yng nghyd-destun cyngor cyfreithiol, cymrodeddu, ymgyfreitha ac ymchwiliadau. Gall braint fod yn berthnasol i gyngor cyfreithiol a materion ymgyfreitha, ac mae'n cynnwys trafodaethau, penderfyniadau, cyfarwyddiadau a derbyn cyngor cyfreithiol (ysgrifenedig ac ar lafar). Ceir rheolau llym ynghylch pryd mae braint yn berthnasol, a gellir colli braint drwy ddosbarthu deunydd breintiedig heb fesurau diogelu digonol.

Rhagwelir y bydd yn rhaid i holl aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau, yn ystod tymor eu penodiad, ymwneud â gohebiaeth/gwybodaeth freintiedig, a rhaid iddynt weithredu yn unol â Chôd Ymarfer Cyngor y Brifysgol ar gyfer Aelodau a'r Rheoliadau ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd mewn perthynas â materion o'r fath.

*5.* *Tymhorau Penodiad*

Ac eithrio'r myfyriwr sy'n aelod, dylid penodi aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg fel arfer am bedair blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o benodi am ail dymor o bedair blynedd ar y mwyaf.

*6.* *Presenoldeb*

Fel arfer, dylai'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Ariannol, y Cyfarwyddwr Cysylltiol - Archwilio Mewnol, Rheolwr Risg y Brifysgol a'r Archwilwyr Allanol fynd i gyfarfodydd pan fo busnes sy'n berthnasol iddynt yn cael ei drafod. Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddoethineb, wahodd swyddogion eraill yn y Brifysgol, fel y bo'n briodol, i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yr hawl, pryd bynnag y mae'n fodlon bod hyn yn briodol, i gynnal sesiwn gyfrinachol a gwahardd unrhyw un neu'r holl gyfranogwyr ac arsylwyr eraill heblaw am Ysgrifennydd y Cyngor. Dylai'r Pwyllgor gynnal sesiwn yn rheolaidd i aelodau'n unig cyn pob cyfarfod, dylai gwrdd â'r archwilwyr heb i'r Swyddogion Gweithredol fod yn bresennol er mwyn trafod unrhyw beth y gallai'r archwilwyr ddymuno cadw'n breifat, a dylai gwrdd â'r Swyddogion Gweithredol, fel arfer y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu a'r Prif Swyddogol Ariannol, heb i'r archwilwyr fod yn bresennol i godi unrhyw faterion preifat eraill. O leiaf unwaith y flwyddyn, dylai'r Pwyllgor gwrdd ar wahân â'r Archwilwyr Allanol a'r Cyfarwyddwr Cysylltiol - Archwilio Mewnol heb i'r Swyddogion Gweithredol fod yn bresennol, heblaw am Ysgrifennydd y Cyngor.

Dylai'r Cyfarwyddwr Cysylltiol - Archwilio Mewnol a'r Archwilwyr Allanol gael hawl heb gyfyngiadau i gael mynediad at y Pwyllgor a'r Cadeirydd a chael yr hawl i ofyn i'r Cadeirydd gynnull cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor os oes angen.

*7.* *Cworwm*

Bydd tri aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn ddigon ar gyfer cworwm, ar yr amod bod y mwyafrif yn aelodau lleyg (gan gynnwys o leiaf y Cadeirydd neu un aelod lleyg arall o'r Cyngor).

8. *Awdurdod*

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg wedi ei awdurdodi gan y Cyngor i ymchwilio i unrhyw weithgarwch sy'n rhan o'i gylch gorchwyl. Fe'i hawdurdodir i ofyn am unrhyw wybodaeth y mae ei hangen arno gan unrhyw weithiwr, a chyfeirir pob gweithiwr i gydweithredu â cheisiadau a

wneir gan y Pwyllgor. Awdurdodir y Pwyllgor gan y Cyngor i gael cyngor proffesiynol cyfreithiol neu annibynnol allanol arall a sicrhau presenoldeb unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad ac arbenigedd perthnasol os yw'n ystyried bod angen hyn, fel arfer mewn ymgynghoriad â'r Is-ganghellor a/neu Gadeirydd y Cyngor. Fodd bynnag, ni chaniateir gwariant uniongyrchol at y diben hwn heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor wedi'i awdurdodi i gymeradwyo'r holl ddogfennau cynllunio archwilio ar ran y Cyngor. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r archwiliad o'r datganiadau ariannol blynyddol drafft. Bydd yr agweddau hyn yn cynnwys y farn archwilio allanol, datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, datganiad o reolaeth fewnol a materion perthnasol a godir yn y llythyr rheoli gan yr Archwilwyr Allanol. Dylai'r Pwyllgor, pan fo'n briodol, gadarnhau gyda'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol fod effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i adolygu, a rhoi sylwadau ar hyn yn ei adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu.

Dylai'r Pwyllgor gysylltu â phwyllgorau eraill y Cyngor fel y bo'n briodol, a chaiff gyflwyno a derbyn ceisiadau am sicrwydd i bwyllgorau eraill y Cyngor a chan bwyllgorau eraill y Cyngor.

*9.* *<u>Diben</u>*

Rôl y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yw cynghori a chynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas â holl amgylchedd sicrwydd a rheolaeth y Brifysgol. O ran y materion sy'n rhan o'i gylch gorchwyl, mae gan y Pwyllgor Archwilio'r awdurdod i gyflwyno argymhellion i'r Brifysgol, ei hunedau sefydliadol a'i haelodau.

*10.* *<u>Cylch Gorchwyl</u>*

Dyletswyddau'r Pwyllgor fydd:

(a) Cynghori'r Cyngor ar benodi'r Archwilwyr Allanol, y ffi archwilio, unrhyw wasanaethau a ddarperir gan yr Archwilwyr Allanol nad ydynt yn wasanaethau archwilio ac unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud ag ymddiswyddo neu ddiswyddo'r Archwilwyr Allanol.

(b) Trafod â'r Archwilwyr Allanol, cyn i'r archwiliad ddechrau, natur a chwmpas yr archwiliad a chytuno ar Gynllun Archwilio blynyddol.

(c) Trafod â'r Archwilwyr Allanol broblemau ac amheuon sy'n deillio o'r archwiliadau dros dro a therfynol, gan gynnwys adolygiad o'r llythyr rheoli sy'n ymgorffori ymatebion gan reolwyr, ac unrhyw faterion eraill y gallai'r Archwilwyr Allanol neu'r Pwyllgor ei hun ddymuno eu trafod (yn absenoldeb y rheolwyr pan fo angen).

(ch) Ystyried a chynghori'r Cyngor ynghylch penodi a thelerau cyflogi'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol (a'r Cyfarwyddwr Cysylltiol - Archwilio Mewnol, os yw'n berthnasol), y ffi archwilio, unrhyw wasanaethau a ddarperir gan yr Archwilwyr Mewnol nad ydynt yn wasanaethau archwilio ac unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud ag ymddiswyddo neu ddiswyddo'r Archwilwyr Mewnol.

(d) Adolygu asesiad risg archwilio'r Archwilwyr Mewnol a'r strategaeth, a chymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol; derbyn adroddiadau cyfnodol am ganlyniadau gwaith yr Archwilwyr Mewnol; ystyried prif ganfyddiadau ymchwiliadau archwilio mewnol ac ymateb y rheolwyr; a hyrwyddo cydlynu rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer Archwilio Mewnol yn ddigon i

ddiwallu anghenion y Brifysgol (neu'n cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor fel y bo'n briodol). Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol bob tair blynedd er mwyn sicrhau ei fod yn perfformio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor.

(dd) Parhau i adolygu effeithiolrwydd rheoli risg, diwylliant, rheolaeth, a threfniadau llywodraethu, ac adolygu fframwaith rheoli risg (Datganiad o Awydd Risg, Polisi Rheoli Risg a Chanllawiau Rheoli Risg) y Brifysgol bob blwyddyn, ac argymell unrhyw newidiadau i'r Cyngor, ac adolygu llythyr rheoli'r Archwilwyr Mewnol, adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol, ac ymatebion rheolwyr a chadarnhau, pan fo'n briodol, ar y cyd â'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol fod effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi cael ei adolygu, a chyflwyno sylwadau am hyn yn ei adroddiad blynyddol i'r Cyngor a chael gwybod am bob newid sylweddol i systemau rheolaeth fewnol.

(e) Monitro'r ffordd y mae argymhellion y cytunwyd arnynt sy'n seiliedig ar waith archwilio yn cael eu gweithredu, o ba bynnag ffynhonnell.

(f) Sicrhau yr ymchwiliwyd yn drylwyr i bob colled sylweddol ac y rhoddwyd gwybod i'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol - a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) pan fo'n briodol.

(ff) Goruchwylio polisïau'r Brifysgol mewn perthynas ag ymddygiad moesegol ac ymddygiadau eraill, gan gynnwys chwythu'r chwiban, gwrth-lwgrwobrwyo, digwyddiadau perthnasol sy'n cael effaith niweidiol neu ddigwyddiadau[2] y mae'n rhaid adrodd amdanynt, twyll ac afreoleidd-dra, etc. – gan gynnwys cael gwybod am unrhyw gamau a gymerwyd dan y polisïau hyn[3] (gweler Atodiad 2 Côd Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch y CUC sydd wedi'i atodi). Tynnu sylw at chwythu'r chwiban fel eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod Pwyllgor a monitro ymwybyddiaeth a defnydd staff o'r polisi ynghylch Chwythu'r Chwiban, a meithrin dealltwriaeth o ddiwylliant a gwerthoedd ehangach y Brifysgol (e.e. drwy adroddiadau archwilio mewnol ac arolygon staff);

(g) Bodloni ei hun bod trefniadau addas ar waith i sicrhau cynaliadwyedd y Brifysgol ac i hybu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian). Bydd hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r Brifysgol yn gweithredu'n unol ag ef. Dylai hyn gynnwys ystyried trefniadau sy'n:
a) ategu'r diwylliant a'r ymddygiad sy'n gyffredin yn y sefydliad;
b) sicrhau rheolaeth effeithiol o wrthdaro buddiannau; ac
c) sicrhau bod 'pobl addas a phriodol' yn gallu cael eu penodi i'r Cyngor ac Uwch-swyddi Gweithredol.

(ng) Bodloni ei hun bod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod ffurflenni data priodol a chywir yn cael eu dychwelyd i randdeiliaid allanol a chyrff rheoleiddiol.

(h) Derbyn unrhyw adroddiadau perthnasol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, CCAUC a sefydliadau eraill.

[2] Mae 'goruchwylio' yn cynnwys sicrhau bod gan y Brifysgol bolisïau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau moesegol ac ymddygiadau eraill, bod polisïau o'r fath yn ymddangos yn synhwyrol, eu bod yn gweithredu a bod staff yn ymwybodol ohonynt, a bod rolau adrodd allweddol priodol yn cael eu nodi a'u hadolygu'n rheolaidd.
[3] Bydd eitemau sefydlog ar yr agenda i roi sicrwydd i'r aelodaeth ar faterion allweddol, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerir dan y polisïau hyn sy'n ymwneud ag ymddygiadau moesegol ac ymddygiadau eraill.

(i) Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd archwilwyr allanol a mewnol yn flynyddol, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gwrthrychedd, a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor ynghylch eu hailbenodi, pan fo hynny'n briodol.

(l) Monitro ffynonellau sicrwydd perthnasol eraill, er enghraifft adolygiadau allanol eraill.

(ll) Ystyried elfennau o'r datganiadau ariannol blynyddol ym mhresenoldeb yr archwilwyr allanol gan gynnwys barn ffurfiol yr archwilwyr, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau a'r datganiad o reolaeth fewnol, yn unol â *Chyfarwyddyd Cyfrifon* CCAUC.

(m) Os bydd y Brifysgol yn uno neu'n cael ei diddymu, sicrhau bod y camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cwblhau, gan gynnwys trefnu i gwblhau'r set derfynol o ddatganiadau ariannol a'u llofnodi.

(n) O bryd i'w gilydd (ac o leiaf unwaith bob pedair blynedd), adolygu ei gylch gorchwyl a'i effeithiolrwydd ei hun ac argymell unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyngor (gweler Atodiad 3 Côd Ymarfer Pwyllgor Archwilio'r CUC);

(o) Bod yn ymwybodol o gyfrifoldebau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach y Brifysgol.

*[Mae'r Cylch Gorchwyl hwn wedi'i lunio gan gyfeirio at Gôd Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch y CUC.]*

*Dyddiad Adolygu Diweddaraf: 27 Medi 2024 (Dim newidiadau a gynhelir)*
*Dyddiad adolygu blaenorol: 29 Medi 2023*
*Cymeradwywyd gan y Cyngor: 28 Tachwedd 2022*
*Diwygiadau wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor: 27 Mawrth 2023*
*Diwygiadau wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor: 27 Tachwedd 2023*